

Manyleb person gyffredinol

Manyleb y person

Fel darlithydd cyswllt, dylai fod gennych y canlynol

- gradd neu gymhwyster cyfatebol, neu gymhwyster proffesiynol neu alwedigaethol yn y maes pwnc rydych yn dymuno ei addysgu
- gwerthfawrogiad o'r ffordd mae oedolion yn dysgu a gwerthfawrogiad o sgiliau astudio
- y gallu a'r parodrwydd i hyrwyddo dysgu oedolion drwy ddysgu drwy ohebiaeth, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb a, lle y bo'n briodol, dysgu ar-lein
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wrth addysgu a chefnogi myfyrwyr a chyfathrebu â meysydd eraill Y Brifysgol Agored
- y gallu i weithio gyda myfyrwyr o gefndiroedd addysgol, diwylliannol a gwaith amrywiol
- y gallu i weithio gyda myfyrwyr ag anableddau
- ymrwymiad i ddysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr
- dealltwriaeth o bolisiau ac arferion cyfle cyfartal ac ymrwymiad iddynt
- ymagwedd drefnus a systematig at waith
- y potensial i weithio'n llwyddiannus mewn tîm a'r potensial i weithio'n annibynnol
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da
- ymrwymiad i ddatblygiad personol staff
- argaeledd a hygyrchedd i fyfyrwyr
- y gallu i deithio i ganolfannau tiwtora dynodedig.

Yr iaith addysgu yw Saesneg a dylai eich hyfredded yn Saesneg fod yn ddigonol i fodloni holl ofynion y rôl.

Gwybodaeth ychwanegol

Am fod myfyrwyr ar y modiwl hwn fel arfer yn cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA/EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r gwasanaeth TMA/EMA ar-lein. Efallai y bydd angen i chi hefyd farcio aseiniadau papur a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA).

Mae'n bosibl y bydd union natur y cyfleusterau e-ddysgu a systemau'r brifysgol i fonitro cynnydd y myfyrwyr yn datblygu dros gyfnewid oes y modiwl a bydd angen i chi fod yn barod i addasu yn unol â hynny. Noder y bydd disgwyl i diwtoriaid ddefnyddio eu cyfarpar eu hunain ar gyfer pob agwedd ar e ddysgu yn unol â pholisi'r Brifysgol